

Gweithio i Anabledd Dysgu Cymru



Anabledd Dysgu Cymru
41 Lambourne Crescent
Llanishen
Caerdydd
CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160

**Rydym am i Gymru
fod y wlad orau
yn y byd i bobl ag
anabledd dysgu fyw,
dysgu a gweithio
ynddi**

Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol



Diolch am eich diddordeb yn ein dwy swydd newydd sydd ar gael yn Anabledd Dysgu Cymru.

Ein hymrwymiad sylfaenol yw cefnogi pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i fyw bywydau gwerthfawr.

Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys ac yn arbennig:

- gwrando ar ein haelodau a dysgu oddi wrthynt
- lobio a chyfrannu at bolisi
- lledaenu arfer gorau
- arloesi prosiectau mewn partneriaeth ag eraill.

Ein meysydd blaenoriaeth cyfredol sy'n cael eu hamlinellu yn ein strategaeth yw:

- Addysg
- Iechyd
- Cyflogaeth

Gobeithiwn fod gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n tîm staff bach, cryf a chefnogol sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Zoe Richards,
Prif Swyddog Gweithredol,
Anabledd Dysgu Cymru
Defnyddiwch ragenwau hi/ei

Ynglŷn ag Anabledd Dysgu Cymru

Crëwyd Anabledd Dysgu Cymru ym 1983. Rydym yn elusen genedlaethol, sy'n cael ei chydabod fel llais cyfunol anabledd dysgu yng Nghymru, gan ddod â phobl ag anabledd dysgu eu hunain, gofalwyr teuluol a darparwyr trydydd sector at ei gilydd.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o awdurdodau cyhoeddus, asiantaethau a sefydliadau anllywodraethol eraill.

Rydym am i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio ynddi

Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar gred ein bod i gyd yn cael ein geni â hawliau cyfartal. Rydyn ni'n credu fod gan blentyn, person ifanc neu oedolyn ag anabledd dysgu hawl i'r canlynol:

- Cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
- Byw bywyd ystyrlon
- Gallu dysgu, datblygu a chael mynediad at addysg a hyfforddiant ystyrlon drwy gydol oes
- Cael eu gweld, eu clywed, eu cynnwys a chael llais

- Bod mewn rheolaeth o'u bywyd
- Bod â chyfeillgarwch, perthnasoedd a bywyd cymdeithasol
- Gwaith
- Bod yn ddinesydd sy'n cyfrannu.

Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu hategu gan Gonfensiwn a Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae ein hamcanion yn cefnogi ein gweledigaeth mai Cymru yw'r wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio. Rydyn ni eisiau:

- System addysg gynhwysol y mae pobl ag anabledd dysgu yn teimlo'n rhan ohoni.
- Gweithlu sy'n cynnwys pobl ag anabledd dysgu.
- Cymdeithas sy'n cynnwys, yn gwerthfawrogi ac yn parchu pobl ag anabledd dysgu.
- Cyfreithiau, polisi ac ymarfer sy'n cael eu cyd-gynhyrchu gan bobl ag anabledd dysgu.
- Pobl ag anabledd dysgu yn cael llais ac yn cyfrannu at faterion sy'n effeithio arnynt.

Ein prosiectau, partneriaid prosiect a chyllidwyr

Pobl yr 21ain Ganrif

Mae prosiect Pobl yr 21ain Ganrif, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn dathlu pobl ag anabledd dysgu fel creaduriaid, cyfranwyr a dinasyddion Cymru ac yn herio'r syniad mai dim ond defnyddwyr gwasanaethau a/neu ddibynyddion ar eraill yw pobl ag anabledd dysgu.

Bydd y prosiect yn cyflawni 4 thema:

- Teuluoedd yr 21ain Ganrif
- Lleisiau'r 21ain Ganrif
- Pobl Iach yr 21ain Ganrif
- Byw yn yr 21ain Ganrif

Ynghyd â'n rhwydweithiau a'n partneriaid presennol, sefydliadau prif ffrwd a gwneuthurwyr newid o fewn a thu allan i fyd anabledd – byddwn yn gweithio i wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu a gweithio.

Engage to Change

Mae Engage to Change yn gweithio gydag 800 o gyflogwyr i helpu 1,000 o bobl ifanc 16-24 mlwydd oed sydd ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i ddatblygu eu sgiliau cyflogaeth drwy leoliadau gwaith â thâl. Er mwyn cyflawni'r prosiect ledled Cymru rydym yn gweithio

mewn partneriaeth ag - Agoriad Cyf, Prifysgol Caerdydd ac Asiantaeth Cyflogaeth â Chymorth ELITE.

Ffrindiau Gigiau

Mae Ffrindiau Gigiau yn gynllun cyfeillio sy'nparu pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth gyda gwirfoddolwyr sy'n rhannu'r un diddordebau, fel y gallant fynd i gigiau a digwyddiadau gyda'i gilydd.

Mae gennym brosiectau yn y Gogledd a'r De sy'n cael eu hariannu gan Gymdeithas Tai Dewis Cyntaf, Chronfa Trawsnewid Gogledd Cymru a Lloyds TSB..

Hawdd Ei Deall Cymru

Mae Hawdd ei Deall Cymru yn ei ariannu ei hun ac mae wedi bod yn helpu pobl i roi gwybodaeth i fformat Hawdd ei Deall i bobl ag anabledd dysgu ers 18 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys dogfennau, gwefannau, ymgynghoriadau, polisïau, canllawiau, poster, fideos a thafenni. Rydym hefyd yn helpu eraill i ddatblygu sgiliau Hawdd eu Deall drwy ddarparu ein canllaw 'Clir a Hawdd' rhad ac am ddim a chynnig 2 lefel o gyrsiau hyfforddi ar wneud gwybodaeth yn hygyrch.

Yn fwy diweddar, rydym wedi sicrhau bod gan bobl ag anabledd dysgu wybodaeth gyfoes a hygyrch am Covid-19.

Rhan bwysig o'n gwaith yw cysylltu drwy'r Consortiwm Anabledd Dysgu. Mae Anabledd Dysgu Cymru yn cydlynu'r Consortiwm i sicrhau bod llais cryf sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn cael ei gydnabod yng Nghymru.


Aelodau'r consortiwm yw:

- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Cymorth Cymru
- Cymdeithas Syndrom Downs
- Anabledd Dysgu Cymru
- MENCAP Cymru



Ein Tîm Staff 2022

Cyfathrebu



Kai Jones
Swyddog
Cyfathrebu

Grace Krause
Swyddog Polisi

Samantha
Williams
Rheolwr
Polisi a
Chyfathrebu

Taylor Florence,
Cynorthwydd
Cyfathrebu dan
Hyfforddiant


Hyfforddiant a Digwyddiadau



Simon Rose
Rheolwr
Rhwydweithiau a
Digwyddiadau

Inacia Rodrigues
Cydllynydd
Rhwydweithiau a
Digwyddiadau

Hawdd ei Ddeall Cymru



Laura Griffiths
Uwch Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

Inacia Rodrigues
Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

Julie Jones
Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

NEWYDD
Swyddog
Gwybodaeth
Hygyrch

Zoe Richards
Prif Weithredwr

Engage to Change



Angela
Kenvyn
Rheolwr
Engage to
Change

Geraint Jones-
Griffiths
Llysgennad

Sophie
Williams
Swyddog
Cyfathrebu
Engage to Change


Prosiectau

Adnoddau Dynol a Chyllid



Zhanar
Tabeyeva
Uwch
Swyddog
Cyllid

Joanne
Moore
Rheolwr AD a
Llywodraethu



Karen
Warner
Rheolwr
Arloesedd

Kylie Smith
Cydllynydd
Prosiect
Ffrindiau
Gigiau
De Cymru


Rachel
Somerville
Cydllynydd
Prosiect
Ffrindiau
Gigiau Gogledd
Cymru

Kai Jones
Cydllynydd
Prosiect
Ffrindiau
Gigiau
De Cymru

Danielle Wagstaff
Cydllynydd Gweinyddu
a Chyfathrebu

Heather Graham
Cydllynydd
Prosiect Ffrindiau
Gigiau Gogledd
Cymru

Tîm Cefnogi



NEWYDD
Cydllynydd
Aelodaeth,
Digwyddiadau
ac Ymgysylltu

NEWYDD
Gweinyddwr
Cyllid

NEWYDD
Cydllynydd
Cymorth
Gweinyddol

NEWYDD
Glanhwr
Swyddfa

Beth mae Anabledd Dysgu Cymru yn ei gynnig i chi

Rydym yn sefydliad sy'n ceisio sicrhau bod ein diwylliant, ein polisiâu a'n harferion yn adlewyrchu ein bod yn parhau i weithio tuag at fod yn gyflogwr modern, teg, cyfartal a chynhwysol.

Lles Cyflogeion: Nod Anabledd Dysgu Cymru yw cefnogi cydbwysedd gweithwyr rhwng gwaith a bywyd teuluol. Rydym yn cynnig nifer o bolisiau sy'n ystyriol o deuluoedd ac arferion gweithio hyblyg i hyrwyddo hyn.

Gweithle a diwylliant: Mae tîm LDW yn ymroddedig ac yn angerddol am y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Mae'r holl staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu gwaith. Byddwch yn cael cefnogaeth a chyfeiriad rheolaidd gan eich rheolwr fel y gallwch wneud eich gwaith yn dda a datblygu eich sgiliau.

Rydym ni'n cynnig model gweithio hybrid, arfer hyblyg arall sy'n rhoi'r opsiwn i chi rannu eich amser rhwng gweithio yn y swyddfa, yn eich cartref a lleoliadau eraill fel sy'n cael ei ystyried yn briodol.

Gwyliau Blynyddol: Mae gennym hawl gwyliau blynyddol hael o 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc statudol. Mae diwrnodau ychwanegol o wyliau blynyddol yn cronni ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 28 diwrnod y flwyddyn.

Pensiwn: Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn grŵp gyda Scottish Widows. Byddwn yn cyfrannu 7.5% cyn belled â'ch bod yn cyfrannu o leiaf 0.5% neu fwy os dymunwch.

Cyfnod prawf: Byddwn yn eich cefnogi gydag ymsefydlu llawn. Eich cyfnod prawf yw 3 mis.

Offer: Darperir offer priodol at ddefnydd busnes fel y gallwch weithio'n hyblyg.

Gwerthoedd y Gweithlu



Caredigrwydd a parch

Beth rydyn ni'n ei wneud

- Dangos empathi
- Bod yn anfeiniadol
- Gwranddo
- Cynnig cymorth
- Darllen proffiliau un dudalen pobl eraill
- Rhoi lle ac amser i bobl
- Bod yn onest
- Parchu teimladau
- Peidio â thorri ar draws pobl mewn trafodaethau
- Cytuno i anghytuno weithiau



Cynhwysol a theg

Beth rydyn ni'n ei wneud

- Deall sut beth yw bod yn gynhwysol
- Bod yn barod i addasu
- Peidio â gwneud rhagdybiaethau am y naill a'r llall
- Gwrio ein gweithredoedd bob amser a bod yn hapus i gael ein gwrio gan rywun arall
- Cymryd amser i ddarllen proffiliau un dudalen eraill



Hawdd siarad gyda nhw, cyfeillgar a

Beth rydyn ni'n ei wneud

- Bod yn broffesiynol
- Bod yn gyfeillgar
- Gwenu wrth gyfarch pobl. Hyd yn oed os yw hynny dros y ffôn bydd pobl yn teimlo'r wên
- Dysgu am ein rhanddeiliaid, ein haelodau a'u sefydliadau
- Dod o hyd i ddiddordeb gwirioneddol yn y rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw



Tryloywder, bod yn agored ac yn onest

Beth rydyn ni'n ei wneud

- Derbyn ein bod yn gwneud camgymeriadau a mwynhau'r cyfle i gywiro pethau
- Canolbwyntio ar atebion
- Bod yn onest
- Bod yn ddibynadwy
- Bod yn gydwybodol o or-rannu a faint mae pobl yn teimlo wrth rannu eu hunain.
- Peidio â hel clecs.



Caredigrwydd a parch

Beth rydyn ni'n ei weld

- Cydweithwyr hapus
- Dim cliciau
- Staff yn gweithio gyda'i gilydd
- Llai o salwch staff
- Trosiant staff is
- Lefelau uchel o ddiddordeb mewn gweithio i ni
- Gweithlu amrywiol
- Enw da fel cyflogwr da a sefydliad partner
- Dim bwlio



Cynhwysol a theg

Beth rydyn ni'n ei weld

- Ffyrdd gwahanol o weithio
- Gweithle mwy hygyrch
- Newid mewn ymagwedd a chanfyddiadau
- Rydyn ni'n seiliedig ar asedau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- ymagwedd (canolbwyntio ar bobl nid ar systemau)



Hawdd siarad gyda nhw, cyfeillgar a

Beth rydyn ni'n ei weld

- Cyd-ddibyniaeth
- Sefydliad blaengar
- Dealltwriaeth o'r ffiniau
- Dysgu oddi wrth y naill a'r llall



Tryloywder, bod yn agored ac yn onest

Beth rydyn ni'n ei weld

- Timau staff hyderus
- Pobl a sefydliad uchel eu parch
- Twf sefydliadol
- Mwy o weithio mewn partneriaeth



Caredigrwydd a parch

Sut rydyn ni'n teimlo

- Diogel
- Cyfforddus
- Hapus
- Cadarnhaol
- Cynhyrchiol
- Yn gynwysedig, yn gyfartal ac yn rhan o dîm
- Yn werthfawr
- Ein bod yn cael gwrandawriad
- Hyderus
- Brwdfrydig



Cynhwysol a theg

Sut rydyn ni'n teimlo

- Hapus
- Yn werthfawr
- Cynnwys
- Cyfleoedd cyfartal
- Mae ein llais yn cael ei glywed a'n barn yn cael ei gwerthfawrogi
- Brwdfrydig
- Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o eraill e.e. diwylliannau, crefyddau eraill ac ati



Hawdd siarad gyda nhw, cyfeillgar a

Sut rydyn ni'n teimlo

- Cyfforddus
- Cyfarwydd
- Diogel
- Agor
- Ymddiriedol
- Hamddenol
- Croesawu
- Diwylliant o gymuned
- Gallwn ddibynnu ar ein gilydd



Tryloywder, bod yn agored ac yn onest

Sut rydyn ni'n teimlo

- Yn werthfawr
- Hapus a hamddenol
- Rhan o gymuned
- Hyderus

Tystebau

“Rwy’n teimlo’n falch o fod yn gweithio i sefydliad sydd â gwerthoedd mor gryf sy’n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Rwyf wrth fy modd yn gweithio gyda grŵp mor gefnogol, talentog ac angerddol o bobl.”

“Rwy’n hoffi gweithio i Anabledd Dysgu Cymru oherwydd bod gennym dîm yma sy’n trin ei gilydd gyda chefnogaeth a charedigrwydd. Mae LDW hefyd yn gyflogwr gwych iawn o ran cefnogaeth gadarn am bethau fel gofalu am fy iechyd meddwl, addasiadau rhesymol a chreu amgylchedd gwaith sy’n gweddu i anghenion gweithwyr unigol yn gyffredinol.”

“Byddwn yn bendant yn dweud bod y tîm cefnogol ac angerddol yn dod drosodd yn gryf iawn. A’r ymdeimlad bod pawb wedi ymrwymo i wneud yr hyn maen nhw’n ei wneud a wir yn gweithio tuag at wneud gwahaniaeth.”

“Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gwerthfawrogi ei weithwyr, ac rwy’n falch o fod yn rhan annatod o sicrhau bod ein diwylliant, ein polisiau a’n harferion gwaith yn adlewyrchu ein bod yn parhau i weithio tuag at fod yn gyflogwr teg, cyfartal a chynhwysol.”

Sut i wneud cais

Gallwch ddod o hyd i'r pecyn cais ar ein gwefan yn www.ldw.org.uk.

Dylech gyflwyno eich cais ar-lein.

Os hoffech drafod y swyddi'n fanylach, anfonwch e-bost at Zoe Richards, Prif Swyddog Gweithredol, Anabledd Dysgu Cymru: zoe.richards@ldw.org.uk.

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled Cymru.

Rydym ni'n croesawu ymgeiswyr o bob rhan o Gymru a gan bobl a allai brofi hiliaeth a phobl sydd â phrofiad byw perthnasol.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol.